

# Dyledus:

## Profiadau o ôl-ddyledion treth gyngor yng Nghymru

cyngor ar bopeth | citizens advice


Amy Dutton
Lindsey Kearton


**Gorffennaf 2022**

# Beth yw'r broblem?

Mae llawer o bobl yng Nghymru yn poeni am sut i gael dau ben llinyn ynghyd eleni. Mae pecynnau cymorth Llywodraeth Cymru a'r DU wedi lleddfu rhywfaint o bwysau ar aelwydydd ond nid ydynt wedi datrys yr argyfwng costau byw.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi gweld y niferoedd uchaf erioed o bobl yn dod atom am gyngor ar ddyledion biliau hanfodol wrth i bobl frwydro ag effaith y pandemig, chwyddiant cynyddol a chyflogau a budd-daliadau disymud.

Ôl-ddyledion y dreth gyngor yw'r mater dyled mwyaf cyffredin a welwn yn Cyngor ar Bopeth yng Nghymru. Dyma'r gost sefydlog fwyaf sydd gan y rhan fwyaf o aelwydydd ar ôl tai, gall pobl fod ar ei hôl hi gyda'u taliadau treth gyngor os bydd eu costau byw hanfodol eraill yn dechrau rhoi straen ar eu cyllidebau.

Fodd bynnag, yn hytrach na helpu pobl i fynd yn ôl ar y trywydd iawn, mae'r rheoliadau presennol sy'n llywodraethu casglu dyledion y dreth gyngor, ochr yn ochr â phwysau cyllidebol sy'n ysgogi casgliadau yn ystod y flwyddyn, yn golygu bod llawer o bobl yn wynebu dulliau adfer a all waethygu problemau dyled a dwysáu ansicrwydd ariannol. Gall hefyd gael sgil-effeithiau mewn meysydd eraill o fywydau pobl megis sicrwydd swydd, iechyd corfforol a meddyliol a pherthnasoedd personol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o ymyriadau i wella casgliadau'r dreth gyngor yn ystod tymor diwethaf y Senedd, ond credwn nad ydynt yn mynd yn ddigon pell. O ystyried yr anawsterau ariannol y mae llawer o aelwydydd yn parhau i'w hwynebu eleni, mae'n hollbwysig bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg pan fyddant ar ei hôl hi gyda'u treth gyngor.

## Beth sydd angen ei newid?

Mae yna gamau y gall Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eu cymryd i helpu pobl i ddod allan o ddyled treth gyngor mewn ffordd deg a chynaliadwy.


1. **Dangos mwy o hyblygrwydd** i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd fforddio ad-daliadau dyled.
2. **Peidio â gofyn i bobl dalu eu bil blynyddol cyfan** os ydynt yn methu 1 taliad misol.
3. **Parhau i wella ymwybyddiaeth o gymorth y dreth gyngor** a chynyddu'r nifer o aelwydydd sy'n gymwys i hawlio'r cymorth.
4. **Creu cod ymarfer statudol** sy'n llywodraethu casglu dyledion treth gyngor, gan adeiladu ar Brotocol Treth Gyngor Cymru.

# Mae’r broses bresennol ar gyfer casglu ôl-ddyledion treth gyngor yn cael ei llywio gan reoliadau sydd wedi dyddio

Mae casglu’r dreth gyngor yn hollbwysig er mwyn i awdurdodau lleol ariannu gwasanaethau hanfodol fel ysgolion a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, gall rheoliadau presennol sy’n llywodraethu casglu dyledion y dreth gyngor, a thargedau casglu yn ystod y flwyddyn, wthio cynghorau i ddefnyddio dulliau adfer tymor byr a all waethygu problemau dyled yn hytrach na helpu pobl i fynd yn ôl ar y trywydd iawn.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i bobl sydd mewn dyled dalu eu bil blynyddol llawn os ydynt yn methu taliad
- Gofyn am ad-daliad o ôl-ddyledion o fewn yr un flwyddyn ariannol
- Annog awdurdodau lleol i gychwyn achos llys yn gyflym iawn
- Rhoi pwysau ar gynghorau i ddefnyddio beiliäid




*Ffigur 1: Diagram i ddangos profiad cyffredin o gasglu ôl-ddyledion treth gyngor.[1]*

**Mae gwaith casglu dyled treth gyngor yn aml yn cyrraedd yn is na'r safonau mewn marchnadoedd a reoleiddir ar gyfer gwasanaethau hanfodol eraill**

Mae marchnadoedd a reoleiddir, megis ynni, dŵr a gwasanaethau ariannol, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gadw at safonau llym i sicrhau bod prosesau casglu dyledion yn deg ac yn gymesur. Nid yw'r un lefel o oruchwyliaeth yn berthnasol i gasglu dyledion treth gyngor. Mae cyflwyno Protocol diwygiedig y Dreth Gyngor i Gymru yn 2019[2] yn adlewyrchu lefel o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru i annog casglu dyledion yn decach, ond nid yw’n mynd mor bell â phrotocolau tebyg a gyflwynwyd gan rai awdurdodau lleol yn Lloegr.[3] Mae perygl hefyd i ddulliau gwirfoddol fel hyn gael eu gweithredu’n dameidiog, a bydd llawer o bobl yn parhau i gael profiadau gwael.

[1] Mae’r gwaith o fapio’r broses hon yn deillio o nifer o ffynonellau gan gynnwys data cleientiaid Cyngor ar Bopeth, y rheoliadau sy’n nodi prosesau casglu’r dreth gyngor a ffioedd beiliäid.
[2] Protocol y Dreth Gyngor ar gyfer Cymru, Cyhoeddwyd Ionawr 2019, Cyrchwyd Mehefin 2022
[3] Protocol y Dreth Gyngor, Cyhoeddwyd Mehefin 2017, Cyrchwyd Mai 2022

# Pwy sy'n dod atom i gael cyngor?

Yn 2021-22, gofynnodd **mwy na 5,500 o bobl** am gymorth ar ddyled y dreth gyngor gan Gyngor ar Bopeth lleol ledled Cymru, gyda'r **niferoedd uchaf erioed yn y misoedd diwethaf**. Ers mis Ionwar y flwyddyn hon, mae'r cyfartaledd misol wedi bod 23% yn uwch na lefelau cyn y pandemig. Daeth bron i **1 o bob 3 (30%)** atom gyda **materion beilïaid** ac roedd angen cyngor ar 7 o bob 10 (70%) ar sut i ddelio ag ad-daliadau dyled.

**O gymharu â holl gleientiaid Cyngor ar Bopeth, y bobl a welsom â phroblemau dyled treth gyngor oedd pobl sydd:**

- Yn fwy tebygol o adrodd bod cyflwr iechyd meddwl arnynt
- Yn fwy tebygol o fod mewn cartref gyda phlant
- Yn fwy tebygol o fod mewn gwaith

[4]Costau Casglu, Cyhoeddwyd Ebrill 2019, Cyrchwyd Mai 2022, [5] Helpu i sicrhau system Treth y Cyngor tecach yng Nghymru, Cyhoeddwyd Mawrth 2021, Cyrchwyd Mai 2022, [6] Cyllideb negyddol yw lle mae cynghorydd dyled yn asesu na all cleient dalu ei gostau byw. I wneud hynny, maent yn defnyddio offeryn a elwir yn Gyfriflen Ariannol Safonol.

Yn flaenorol, mae ein tystiolaeth wedi dangos bod pobl sydd ar ei hôl hi gyda biliau'r dreth gyngor fel arfer **yn methu yn hytrach nag yn anfodlon talu**.[4] Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn helpu aelwydydd ar incwm isel gyda'u biliau, ond nid yw'r cynllun bob amser yn effeithiol o ran cefnogi pobl ar incwm isel i gyflawni eu rhwymedigaeth Treth y Cyngor.[5]

Mae llawer o'r bobl sy'n dod atom i gael cyngor ar ôl-ddyledion y dreth gyngor eisoes yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

**Mae mwy na thraean (38%)** o gleientiaid dyled treth gyngor yn byw ar **gyllideb negyddol.[6]**

Ar gyfartaledd dim ond **£9 y mis** oedd ar ôl gan gleientiaid dyled treth gyngor i dalu costau hanfodol.

Roedd **bron i 1 o bob 4 (23%)** o gleientiaid dyled treth gyngor hefyd angen cyngor ar gael mynediad i fanc bwyd.

**Mae pobl sy'n dod atom am gyngor ar ôl-ddyledion treth gyngor yn debygol o fod â phroblemau dyled lluosog:**

O'r bobl a ddaeth atom ynglŷn â dyledion treth gyngor ers Ionawr 2022:

- roedd **1 o bob 4 (26%)** hefyd angen cyngor ar **ddyledion tanwydd**
- roedd **1 o bob 4 (27%)** hefyd angen cyngor ar **ddyledion dŵr a charthffosiaeth**
- roedd **1 o bob 7 (14%)** hefyd angen cyngor ar **ddyledion cerdyn credyd, siop ac atodol**

# Chwyddleisio lleisiau pobl mewn dyled

Rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2022, fe wnaethom gynnal ymchwil i glywed yn uniongyrchol gan bobl a oedd ar ei hôl hi gyda thaliadau'r dreth gyngor am eu profiadau o ymdrin ag ôl-ddyledion y dreth gyngor. Roedd hyn yn cynnwys sut roedd eu hawdurdod lleol yn rheoli'r broses gasglu. Fe wnaethom hefyd archwilio eu barn ar ba welliannau, os o gwbl, yr oedd angen eu gwneud.

Mae'r ymchwil hwn yn dilyn ymlaen o'n papur briffio y llynedd, oedd yn tynnu sylw at effaith y pandemig ar allu pobl i dalu eu biliau treth gyngor, yn ogystal â'r problemau sy'n gysylltiedig â'r prosesau casglu presennol.[7]

Gyda'r niferoedd uchaf erioed o bobl yn dod atom ar hyn o bryd am gyngor ar ddyledion y dreth gyngor, roeddem am gael gwell dealltwriaeth o ba ffactorau, os o gwbl, sy'n atal pobl rhag ad-dalu eu hôl-ddyledion treth gyngor.

Ar gyfer yr ymchwil hwn, recriwtiwyd y cyfranogwyr trwy asiantaeth ymchwil annibynnol. Cynaliasom gyfweliadau a grwpiau ffocws gydag 20 o bobl, sy'n byw mewn 7 ardal awdurdod lleol wahanol yng Nghymru, a oedd wedi mynd i ôl-ddyledion y dreth gyngor o fewn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae enwau trwy gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid i ddiogelu anhysbysrwydd cyfranogwyr.

[7]Helpu i sicrhau system Treth Gyngor decach yng Nghymru, Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, Cyrchwyd Mai 2022

## Canfuom y canlynol:

1. Gall pobl ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'u hawdurdod lleol sy'n golygu nad ydyn nhw'n cymryd camau i ddelio â'u dyledion
2. Gall pobl ei chael hi'n anfforddiadwy i ddod allan o ddyled
3. Mae pobl eisiau dod o hyd i ffordd fforddiadwy, deg a chynaliadwy allan o ddyled ac mae'n bwysig eu bod yn gallu gwneud hynny

> *'Rydych chi'n siarad â chwmnïau eraill - rydw i wedi bod mewn ôl-ddyledion gyda fy nhrydan a nwy - ac maen nhw'n wirioneddol gydymdeimlo, maen nhw'n llunio cynllun ad-dalu ar eich cyfer chi, ond does dim ots gan y cyngor.'*

**Cyfranogwr sy'n byw ar ei ben ei hun, ac sy'n gweithio'n llawn amser**

# 1. Y gall pobl ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'u hawdurdod lleol sy'n golygu nad ydyn nhw'n cymryd camau i ddelio â'u dyledion

Yn fuan ar ôl bod ar ei hôl hi gyda thaliadau treth gyngor gall pobl wynebu mesurau gorfodi yn gyflym a all arwain at gynnydd yn eu dyled treth gyngor. Er mwyn atal hyn rhag digwydd mae’n bwysig eu bod yn cymryd camau prydlon i ymgysylltu â’u hawdurdod lleol cyn gynted â phosibl ar ôl methu taliad.

Pan oedd awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau mwy cydymdeimladol, neu’n darparu cyngor a chymorth gyda dyledion, clywsom y gallai ei gwneud yn haws i rywun sy’n profi anhawster ariannol gymryd y camau cychwynnol hynny. Fodd bynnag, dywedodd llawer o gyfranogwyr y cyfweliadau wrthym fod rhwystrau’n aml i ymgysylltu ag awdurdodau lleol a all wneud y broses hon yn fwy anodd.

- Mae’r ffordd y mae cynghorau’n cyfathrebu yn gallu atal pobl yn hytrach nag annog pobl i gysylltu â’u hawdurdod lleol
- Hyd yn oed pan oedd pobl yn siarad â'u cyngor, roeddent yn aml yn dal i gael trafferth dod o hyd i ffordd ymlaen

**Profiad Maria**

Mae Maria yn fyfyrwraig nyrsio ac mae ganddi ddau o blant ifanc. Roedd hi'n gweithio ochr yn ochr â'i hastudiaethau ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau pan ddechreuodd ar ei lleoliad. Yn gyffredinol mae hi'n ei chael hi'n anodd cadw i fyny â biliau ond mae'n blaenoriaethu bwyd a gwres. Aeth ar ei hôl hi gyda'i thaliadau treth gyngor pan roddodd y gorau i weithio.

Derbyniodd Maria nodiadau atgoffa ar ap ffôn ei chyngor ond nid yw wedi ffonio na chysylltu â’r cyngor. Pan fethodd daliadau o'r blaen, teimlai nad oedd yr awdurdod lleol wedi bod o gymorth a gwrthododd weithio gyda hi i sefydlu cynllun ad-dalu fforddiadwy. Yn y diwedd aeth i'r llys a chael ffioedd wedi'u hychwanegu at ei dyled. Gwnaeth hyn iddi deimlo nad oedd pwynt ffonio y tro hwn.

> *'Maen nhw'n gallu bod yn eithaf anghwrtais a swta ... Dw i'n gweld bod cwmnïau eraill yn gallu bod yn llawer mwy cydymdeimladol a pharod i'ch helpu chi, tra bod y cyngor, rwy'n siŵr eu bod yn darllen o sgript.'*

Ni all Maria fforddio talu’r swm cyfan felly mae’n talu’r hyn sydd ganddi ‘dros ben’ ar ôl talu biliau eraill ond mae ganddi ôl-ddyledion. Mae hi'n ansicr pa opsiynau sydd ganddi ac mae'n poeni y bydd yn gorfod mynd i'r llys eto.

# Mae'r ffordd y mae cynghorau'n cyfathrebu yn gallu atal pobl yn hytrach nag annog pobl i gysylltu â'u hawdurdod lleol

## Gall arddull cyfathrebu 'popeth neu ddim' mewn llythyrau cyngor wneud i bobl deimlo'n anobeithiol ynghylch ad-dalu eu hôl-ddyledion ac oedi cyn ymgysylltu.

Gall arddull 'popeth neu ddim' mewn nodiadau atgoffa awtomataidd ymddangos yn fygythiol ac anhyblyg i rai pobl sy'n teimlo nad oes ganddyn nhw ddim opsiynau, neu fawr iawn o opsiynau, i ad-dalu eu dyled a mynd yn ôl ar y trywydd iawn. Roedd rhai yn gweld llythyrau'n hir iawn neu'n gymhleth, a oedd yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt ddeall eu hopsiynau. Pan nad oedd pobl yn gweld camau clir ac ymarferol y gallent eu cymryd i ddelio â'u dyledion gallai achosi iddynt oedi cyn cysylltu â'u hawdurdod lleol neu gymryd camau i ddelio â'u dyledion.

> *'Ar gefn y llythyr roedd yn dweud y gallwch gysylltu â Chyngor ar Bopeth neu StepChange neu rywbeth. Ond mae hynny ar ôl rhywbeth mor rymus a bygythiol, nid oes gennych chi ddiddordeb ar ôl hynny a dweud y gwir. Gan fy mod yn y fath gyflwr, fel y dywedais, cyrhaeddais y pwynt o beidio ag agor y llythyrau oherwydd roeddwn yn poeni am beth oedd yn mynd i ddod nesaf.'*
> **Cyfranogwr sy'n rhiant sengl ac sy'n gweithio rhan amser**

## Mae materion ymarferol yn ei gwneud yn anoddach i bobl ymateb i gyswllt cychwynnol gan eu hawdurdod lleol

Clywsom fod rhai pobl yn ei chael yn anodd cysylltu â'u hawdurdod lleol dros y ffôn, gan nodi amseroedd aros hir, oriau agor a oedd yn gwrthdaro â'u diwrnod gwaith neu anhawster i wneud galwadau ffôn. Roedd rhai pobl hefyd wedi profi oedi wrth gael eu hysbysu o'u hôl-ddyledion, naill ai o ganlyniad i gamgymeriadau gweinyddol neu oherwydd eu bod yn cael trafferth derbyn post.

**Profiad Mike**

Mae Mike yn byw gyda'i bartner a dau o blant. Gallai fwy neu lai gadw i fyny â'i filiau cartref nes iddo orfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd iechyd meddwl gwael. Cafodd drafferth i gadw i fyny â thaliadau ac aeth dri mis ar ei hôl hi o ran ei dreth gyngor.

Derbyniodd nodiadau atgoffa ond dywedodd fod arddull y llythyrau yn fygythiol ac nad oedd yn ymddangos ei fod yn darparu opsiynau a fyddai'n ei helpu i ddod yn ôl ar y trywydd iawn. Gwnaeth hyn iddo boeni am gysylltu â'i awdurdod lleol. Teimlai fod straen yr ôl-ddyledion wedi gwaethygu ei iechyd meddwl ac wedi rhoi straen ar ei berthnasoedd â'i wraig a'i blant.

Ar ôl i feilïaid ymweld â'i gartref, ffoniodd Mike y cyngor. Dywedodd eu bod yn anodd cyd-drafod â nhw i ddechrau ond ar ôl iddo ddatgelu bod ganddo broblemau iechyd meddwl, roedd eu hymateb yn fwy cyfeillgar. Roeddent yn barod i sefydlu cynllun ad-dalu y mae'n gobeithio ei dalu o fewn y 6 mis nesaf.

Roedd yn teimlo'n rhwystredig nad oedd yr awdurdod lleol wedi bod yn fwy cydymdeimladol o'r dechrau gan ei fod yn teimlo bod y cyfathrebu cychwynnol wedi'i gwneud yn llawer anoddach iddo ymgysylltu yn gynharach.

> *wahanol a bod yn llawer mwy parchus yn ei gylch, yn enwedig ar ôl y ddwy flynedd ddiwethaf, mae pawb wedi dioddef anawsterau ariannol a covid a phopeth. Rwy'n meddwl bod angen iddynt roi'r gorau i fod yn ymosodol oherwydd petaen nhw'n fwy caredig, mae'n debyg y byddai pobl yn ymateb yn well.'*

# Pan fyddai pobl yn siarad â'u cyngor, byddent yn aml yn dal i gael trafferth dod o hyd i ffordd ymlaen

## Teimlai llawer o gyfranogwyr fod eu hawdurdod lleol yn anhyblyg ac nad oeddent yn ystyried eu hamgylchiadau

Pan fyddai pobl yn cysylltu â'r cyngor, roedd rhai'n dal i weld bod eu hopsiynau'n gyfyngedig iawn ar gyfer delio â'u dyledion.

Soniodd pobl am fethu â dod i drefniant ad-dalu fforddiadwy, gyda staff yn methu ag ystyried eu hamgylchiadau neu'n gwbl amharod i drafod gyda nhw.

> *'Gallaf ei ddeall yn iawn, oherwydd dyna'u gwaith nhw, ond nid oeddent yn gwybod fy amgylchiadau i, bod fy ngŵr wedi marw ... dywedodd wrthyf, mae'n rhaid ei dalu. A finnau'n ateb, dydych chi ddim yn gwybod fy amgylchiadau, pam ydych chi'n siarad fel hyn gyda fi?'*
>
> **Cyfranogwr sy'n byw ar ei ben ei hun, sy'n gweithio'n rhan amser**

## Roedd ymddygiad gwael y staff yn ei gwneud yn anodd cysylltu ag adran y dreth gyngor ac yn lleihau ymgysylltiad yn y dyfodol

Er y gall dewis staff fod yn gyfyngedig o ran yr opsiynau y gallant eu cynnig i bobl mewn dyled, canfuwyd bod dull ac ymagwedd rhai staff rheng flaen yn rhwystr mawr i bobl sy'n delio â'u hôl-ddyledion.

Disgrifiodd pobl rai aelodau o staff fel bod yn anghwrtais neu'n ddigydymdeimlad â'u hamgylchiadau a oedd yn eu hatal rhag ffonio adran y dreth gyngor neu'n ei gwneud hi'n anoddach trafod opsiynau ad-dalu.

> *'Rwyf wedi cael pobl yn siarad â fi fel s*** ar y ffôn, a dyna pam nad yw pobl eisiau eu ffonio mae'n debyg.'*
>
> **Cyfranogwr sy'n rhiant sengl, sy'n gweithio'n llawn amser**

## Mae dulliau anghyson yn golygu bod pobl yn gallu cael profiadau amrywiol

Pan gysylltodd pobl â'u hawdurdod lleol ar ôl derbyn hysbysiad i dalu'r bil llawn, cynigiwyd yr opsiwn i rai sefydlu cynllun ad-dalu, tra dywedwyd wrth eraill bod yn rhaid iddynt dalu'r swm llawn ar unwaith neu wynebu gorfodaeth bellach. Mae'r anghysondeb hwn yn golygu y gall pobl ei chael hi'n anodd deall eu hawliau neu golli'r un cyfleoedd ag eraill i ad-dalu eu dyledion mewn modd synhwyrol.

> *'Doedd y person cyntaf siaradais i â nhw ddim o help, "mae'n rhaid i chi ei dalu erbyn y dyddiad" ... ond yna ffoniais yn ôl y diwrnod wedyn a siaradais â dynes ac roedd hi'n hyfryd. Esboniais bopeth iddi hi... fe wnaethon nhw Gyfriflen Ariannol Safonol - felly fe wnes i hynny ac fe wnaethon nhw ysgrifennu'n ôl yn holi os allwn i fforddio 'y swm yma' y mis... fe wnaethon nhw sicrhau ei fod yn rhywbeth y gallen ni ei dalu bob mis fel na fydden ni'n mynd i ddyled gyda phethau eraill.'*
>
> **Cyfranogwr sy'n byw gyda phartner a mab sy'n oedolyn, yn ofalwr ar gyfer eu mab**

# 2. Gall pobl ei chael hi'n anfforddiadwy i ddod allan o ddyled

Gwyddom fod gan lawer o bobl sydd ar ei hôl hi gyda'u treth gyngor incwm gwario cyfyngedig neu ddyledion lluosog. Mae hyn yn golygu y gallant ei chael yn anodd dod yn ôl ar y trywydd iawn gyda'u cyllid.

Mae Protocol Treth Cyngor Cymru yn rhoi arweiniad ar y gyfres o gamau y dylai awdurdodau lleol eu cymryd i helpu i sicrhau bod ad-daliadau dyledion yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. [8] Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Protocol yn cael ei werthuso'n ffurfiol. Mae'r dystiolaeth a welwn yn ddyddiol drwy weithio gyda'n cleientiaid dyled yn dangos yn gyson nad yw rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn dilyn y canllawiau hyn ac mae'r ymchwil diweddaraf hwn yn cefnogi hyn.

Ychydig iawn o gyfranogwyr lwyddodd i drefnu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy ond pan oedd hyn yn bosibl, roeddent yn falch o allu ad-dalu eu hôl-ddyledion wrth barhau i dalu costau hanfodol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r bobl a gyfwelwyd wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i ffordd o weithredu i ad-dalu eu dyledion.

- Gall y ffordd y caiff ôl-ddyledion eu casglu gynyddu dyledion ac ymestyn dyled
- Yn aml, gall pobl ei chael hi'n anodd creu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy a chynaliadwy

[8] Protocol y Dreth Gyngor ar gyfer Cymru, Cyhoeddwyd Ionawr 2019, Cyrchwyd Mehefin 2022

**Profiad Rachel**

Mae Rachel yn byw ar ei phen ei hun yn ne Cymru ond yn aml yn aros yng nghartref ei phartner. Llynedd, collodd hi aelod ifanc o'r teulu a oedd yn golygu ei bod i ffwrdd o'r gwaith gyda galar a straen a chyn hir aeth ar ei hôl hi gyda'i biliau, gan gynnwys y dreth gyngor.

Gan ei bod i ffwrdd o gartref yn aml, ni welodd Rachel y nodiadau atgoffa a anfonwyd gan y cyngor. Erbyn iddi weld y llythyrau, roedd hi eisoes wedi cael gorchymyn i fynychu'r llys. Ffoniodd y cyngor i weithio allan sut i ad-dalu'r ôl-ddyledion ond cafodd drafferth yn cael y cyngor i gytuno ar gynllun ad-dalu fforddiadwy.

Canfu asesiad cyllideb a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol nad oedd gan Rachel arian yn weddill bob mis ar ôl talu am ei chostau hanfodol, ond fe wnaethon nhw'n dal osod swm o dros £100 y mis i'w ad-dalu.

A hithau'n bryderus ynghylch mynd i'r llys neu wynebu gorfodaeth bellach, cytunodd Rachel i'r cynllun hwn. Fodd bynnag, nid yw wedi gallu gwneud un taliad tuag at y cynllun, sy'n golygu ei bod yn parhau mewn dyled ac yn poeni am y camau nesaf y bydd y cyngor yn eu cymryd.

> *'Dywedais fod hynny yn draean o fy incwm ac nad oes gen i mohono – fe wnaethon nhw'r cynllun gyda fi ond wnaethon nhw ddim rhoi llawer o ddewis i fi ar y mater – fe ddywedon nhw, petawn i'n gwneud unrhyw gynnig arall, y byddai'n cael ei wrthod.'*

## Gall y ffordd y caiff ôl-ddyledion eu casglu gynyddu dyledion ac ymestyn dyled

### Mae mynnu taliad am y bil llawn yn fuan ar ôl i rywun fynd ar ei hôl hi yn cynyddu dyled ac yn dileu 'hawl i dalu mewn rhandaliadau'.

Bythefnos ar ôl i rywun fethu taliad gallant ddod yn atebol am y bil blynyddol llawn. I bobl sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â thaliadau, gall mynnu taliad am fil blwyddyn lawn fod yn rhwystr sylweddol iddynt ddod o hyd i ffordd allan o ddyled.

Nid oedd yr un cyfranogwr y siaradwyd â hwy yn gallu talu'r swm hwn mewn un taliad pan aethant ar ei hôl hi ac roeddent yn teimlo ei fod yn cau allan opsiynau ad-dalu mwy hyblyg. Hyd yn oed pan gysylltodd pobl â'u hawdurdod lleol i ofyn am ad-dalu mewn rhandaliadau, dywedwyd wrth rai bod yn rhaid iddynt dalu'r swm llawn neu fod perygl iddynt orfod mynd i'r llys.

> *'Pe bai gen i [y cyfanswm sy'n ddyledus] ar yr un pryd … fyddwn i ddim yn cael help gyda budd-dal tai. Byddwn yn ei dalu i chi yn syth bin… Does bosib na ddylai fod rhywfaint o help, neu fe ddylen nhw ddweud, iawn, ydych, rydych chi ar ei hôl hi. Rydych chi wedi gweld yr hyn rydych chi wedi'i wneud yn anghywir, gadewch i ni geisio'ch helpu chi. Pam na allwch chi ei dalu? Pam fod yn rhaid iddo fynd i'r llys?'*
>
> **Cyfranogwr sy'n rhiant sengl, sy'n gweithio'n rhan amser**

### Mae ffioedd a thaliadau yn cynyddu dyled ac yn ymestyn ad-daliadau

Mae ffioedd a thaliadau a ychwanegir yn ystod y broses gasglu yn cynyddu dyled treth gyngor pobl a gallant ymestyn eu trefniadau ad-dalu. Yng Nghymru, gellir ychwanegu ffioedd o hyd at £70 at ddyled rhywun i dalu am orchymyn atebolrwydd a gellir ychwanegu mwy na £310 i dalu ffioedd beilïaid ar gyfer 'cydymffurfio' a 'gorfodi'. Os aiff eich nwyddau ar werth, gellir ychwanegu £110 arall.[9]

Yn gyffredinol, roedd pobl yn ei chael hi'n anodd deall y cyfiawnhad dros ychwanegu at ddyled rhywun pan maent eisoes mewn trybini ariannol. Nid yn unig yr oedd yn golygu eu bod mewn dyled am fwy o amser, roedd hefyd yn ychwanegu mwy o bryder at sefyllfa a oedd eisoes yn llawn straen.

> *'Pan fyddan nhw'n anfon y beilïaid i'ch cartref, maen nhw'n rhoi swm gwirion o arian ar ei ben. Maen nhw'n ychwanegu rhywbeth fel £150 i gael rhywun i gnocio ar y drws ac mae hynny'n bl*** hurt. Sut allwch chi gyfiawnhau, mae pobl yn amlwg ar ei hôl hi gyda'u biliau ac rydych chi'n rhoi mwy o bwysau arnyn nhw drwy anfon beili i'w cartref.'*
>
> **Cyfranogwr sy'n byw gyda phartner a phlant, hunangyflogedig**

[9] Gwiriwch pa ffioedd y gall beilïaid eu codi - Cyngor ar Bopeth, Cyrchwyd Mai 2022

# Yn aml, gall pobl ei chael hi’n anodd creu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy a chynaliadwy

## Roedd defnydd o’r Gyfriflen Ariannol Safonol (SFS) neu asesiad tebyg yn anghyson rhwng awdurdodau lleol a hefyd o fewn awdurdodau

Offeryn asesu cyllideb y cytunwyd arno’n gyffredin yw’r SFS sydd wedi’i gynllunio i ystyried incwm a gwariant pobl, yn ogystal ag unrhyw ddyledion sy’n ddyledus ganddynt. Ei nod yw amddiffyn pobl mewn dyled rhag ad-daliadau anfforddiadwy a'u helpu i ddod allan o ddyled mewn ffordd gynaliadwy.[10]

Dywedodd pobl wrthym dro ar ôl tro nad oedd asesiad o’r fath wedi’i gynnal neu, er gwaethaf cynnal asesiad, fod eu hawdurdod lleol yn dal i ofyn am fwy nag y dywedodd yr SFS y gallent ei fforddio.

> *'Roedd yn afrealistig. Dangosais y ffigurau iddynt, dyma beth sydd gennyf i fyw arno ar ôl talu'r swm hwn, ond fe ddywedon nhw, dyma'r taliad y mae'n rhaid ichi ei wneud, diwedd y stori. Ac os daliwch ati, byddwn yn anfon lladron rownd i'ch tŷ. I fi, dyna oedden nhw’n ei ddweud.'*
>
> **Cyfranogwr sy'n byw ar ei ben ei hun, yn gweithio 2 swydd ran-amser**

## Gall pwysau i dalu o fewn y flwyddyn ariannol olygu y gofynnir i bobl am isafswm taliadau er gwaethaf eu sefyllfa ariannol

Gall targedau casglu yn ystod y flwyddyn olygu bod cynghorau’n teimlo eu bod wedi'u cyfyngu o ran gallu cynnig cynlluniau ad-dalu hirach.[11]

Mae’r pwysau hwn yn aml yn cael ei drosglwyddo i bobl sydd mewn dyled ac yn golygu y bydd cynghorau’n aml yn gosod isafswm lefel o daliad y mae’n rhaid i gwsmer ei ad-dalu, waeth beth fo’u hamgylchiadau ariannol.

> *Ac roeddwn i'n ceisio esbonio, edrychwch byddaf yn mynd i mewn i'r mis nesaf, allwch chi ei ychwanegu at y mis nesaf. Ac roedden nhw fel na, oherwydd mae'r mis nesaf yn flwyddyn wahanol ... nid oedd yn opsiwn, dim ond na, [rhaid i chi wneud] taliadau uwch nawr. A dw i’n ei chael hi’n anodd **nawr**.'*
>
> **Cyfranogwr sy'n byw gyda'i bartner a'i blant, yn gweithio'n llawn amser**

## Gall y bygythiad o fesurau gorfodi olygu bod pobl yn teimlo pwysau i gytuno ar drefniadau anfforddiadwy

Mae ymwybyddiaeth ac ofn mesurau gorfodi, megis defnyddio beilïaid, yn golygu y gall pobl gytuno i gynlluniau ad-dalu anfforddiadwy er mwyn osgoi unrhyw ddwysáu pellach.

Arweiniodd hyn wedyn at rai yn mynd i galedi, yn colli allan ar hanfodion, neu'n benthyca o rywle arall i gadw i fyny â thaliadau. Nid yn unig yn eu rhoi mewn perygl o fethu â thalu ad-daliadau dyled ond hefyd gynyddu eu hansicrwydd ariannol yn yr hirdymor.

> *'Achos roeddwn i'n meddwl, dydw i ddim yn mynd i adael iddyn nhw ddod at fy nrws fel yna. Ti jest yn tlodi dy hun. Fel y dywedais, dydw i ddim wedi bod â’r gwres ymlaen. Dw i'n oer, drwy'r amser. Ac un aren sydd gen i. Os bydda i’n mynd yn oer, neu’n cael haint dŵr, neu gefn drwg, bydda i’n methu gwneud dim byd eto. Bydda i'n ôl yn yr ysbyty ar drip am 10 diwrnod.'*
>
> **Cyfranogwr sy'n byw ar ei ben ei hun, sy’n gweithio rhan-amser**

[10] Beth yw'r Gyfriflen Ariannol Safonol? | SFS, Cyrchwyd Mai 2022, [11] Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol [CTC 003], Cyrchwyd Mehefin 2022

# 3. Mae pobl eisiau dod o hyd i ffordd fforddiadwy, deg a chynaliadwy allan o ddyled ac mae'n bwysig eu bod yn gallu gwneud hynny

Disgrifiodd y bobl y siaradom â nhw y system bresennol fel un ‘ddigydymdeimlad’, ‘ddidostur’, ‘amhersonol’, a ‘gwaeth na chredydwyr eraill.’ Clywsom hefyd sut y gall bod ag ôl-ddyledion y dreth gyngor effeithio ar fywyd ehangach rhywun: gall orchymyn llys effeithio ar gyflogaeth, gall iechyd meddwl a chorfforol waethygu’n sylweddol ochr yn ochr ag anhawster ariannol estynedig, a gall dyled hirdymor roi straen ar berthnasoedd personol.

## Beth allai fod yn well?

Yn ystod ein grwpiau ffocws a chyfweliadau, roedd y bobl y siaradom â nhw o'r farn y gellid ac y dylid gwella’r broses o gasglu ôl-ddyledion y dreth gyngor. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys:

- Cynlluniau ad-dalu fforddiadwy sy’n ystyried amgylchiadau ariannol rhywun ac sy’n rhoi mwy o amser i bobl ad-dalu pan fo angen
- ‘Gweithdrefn benodedig’ ar gyfer pob cyngor i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gwybod beth yw eu hawliau
- Dim ond pan mae popeth arall wedi methu y bydd beilïaid yn cael eu defnyddio a dim ond ar ôl ymdrechion i ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd eraill, tecach cyn hynny.
- Cyfathrebu cliriach, gan gynnwys drwy lwybrau digidol gwell, gan gynnig cymorth ac amlinellu opsiynau i helpu pobl i gymryd y camau cyntaf hynny i ymgysylltu.

*‘Rwy'n meddwl y dylen nhw gael system benodol, rwy'n meddwl y dylai pawb gael yr un opsiwn ble bynnag rydych chi'n byw, lle maen nhw'n cymryd eich incwm a'ch gwariant i ystyriaeth ... mae angen iddyn nhw wybod beth sydd gan bobl yn dod i mewn'*
**Cyfranogwr sy'n rhiant sengl, yn gweithio’n rhan amser**

*‘Rwy'n meddwl bod ychydig mwy o opsiynau mewn gwirionedd, a gallu lledaenu'r taliadau i'r hyn y gallwch chi ei fforddio yn hytrach na'r hyn y maent yn dweud wrthych y gallwch ei fforddio. Nid wyf yn meddwl ei bod yn deg, os ydych wedi mynd ar ei hôl hi, bod yn rhaid i'ch ôl-ddyledion fod yn glir erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. ’*
**Cyfranogwr sy'n rhiant sengl ac yn fyfyriwr nyrsio llawn amser**

*'Rwy'n meddwl bod angen gwneud rhywbeth, oherwydd mae pobl yn mynd dan straen. Petaen nhw'n feddylgar ac yn gwrtais ac yn gwrando ar gwsmeriaid... Dw i'n meddwl bod cwrteisi yn mynd yn bell.'*
**Cyfranogwr sy'n byw gyda phartner a phlant, hunangyflogedig**



# Beth sydd angen ei newid?

Mae tystiolaeth ein cleientiaid a'r ymchwil hwn yn dangos y gall y mesurau cosbol a ddefnyddir ar hyn o bryd i gasglu dyled y dreth gyngor atal pobl rhag dod o hyd i atebion cynaliadwy. Maent yn aml yn gwaethygu ac yn ymestyn dyled, gan adael pobl ag ôl-ddyledion yn teimlo'n unig ac yn ddi-help.

Credwn fod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r dreth gyngor yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hwn yn rhoi cyfle penodol i gyflwyno newidiadau hir-ddisgwyliedig i Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 sy'n cefnogi prosesau casglu dyledion treth gyngor tecach a mwy cynaliadwy, sydd o fudd i bobl mewn dyled ac awdurdodau lleol.

Wrth inni fynd i mewn i flwyddyn o ansicrwydd ariannol ac anhawster i lawer, mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio'r ysgogiadau sydd ganddynt i wella cydnerthedd ariannol pobl a darparu'r offer sydd eu hangen arnynt i ddod yn ôl ar y trywydd iawn pan fyddant wedi mynd ar ei hôl hi.

**Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn galw ar:**

1. **Awdurdodau lleol i ddangos mwy o oddefgarwch a hyblygrwydd i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd fforddio ad-daliadau dyled drwy:**
    - Cefnogi pobl i gael mynediad at gyngor ar ddyledion a chynyddu incwm cyn gynted â phosibl ar ôl mynd ar ei hôl hi
    - Bod yn fwy parod i drafod/derbyn ad-daliadau llai fel rhan o gynllun ad-dalu dyled fforddiadwy
    - Mynd ati'n rhagweithiol i nodi pan fydd rhywun mewn sefyllfa fregus trwy rannu data'n effeithiol
    - Defnyddio dileadau dyled pan fydd dyledion yn wirioneddol anadferadwy
    - Archwilio targedau casglu nad ydynt yn rhwystr i gynnig cynlluniau ad-dalu hirach.
2. **Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r rheoliadau er mwyn atal pobl rhag gorfod talu eu bil blynyddol cyfan os ydynt yn methu â thalu am 1 mis.**
3. **Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i barhau i wella ymwybyddiaeth o gymorth y dreth gyngor a chynyddu'r nifer o aelwydydd cymwys sy'n manteisio ar y cymorth hwn.**

**Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn galw ar:**

**4. Llywodraeth Cymru i greu cod ymarfer statudol ar gyfer casglu dyledion y dreth gyngor, gan adeiladu ar Brotocol Treth Gyngor Cymru.**

Dylai gynnwys:

- Nodi'r camau y dylai awdurdodau lleol eu cymryd cyn y gellir gwneud gorchymyn atebolrwydd - megis ceisio sefydlu cynllun ad-dalu fforddiadwy ac asesu bregusrwydd.
- Sicrhau bod ad-daliadau dyled yn cael eu gosod ar lefelau fforddiadwy a chynaliadwy:
  - Defnyddio offeryn asesu cyllideb fel y Gyfriflen Ariannol Safonol yn gyson wrth osod cynlluniau ad-dalu.
  - Bod yn fodlon cynnig yr hyblygrwydd i bobl ledaenu taliadau dros fwy na blwyddyn pan fo angen, gan gynnwys y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol.
- Gwella cyfathrebiadau treth gyngor i'w gwneud yn haws i'w deall ac i annog ymgysylltu cynharach
  - Edrych ar enghreifftiau o farchnadoedd hanfodol rheoledig i weld sut y gellir gwneud hyn yn well.
  - Amlinellu opsiynau clir ar gyfer ad-dalu a chymorth sydd ar gael i bobl sy'n cael trafferth talu biliau.
  - Defnyddio tôn gefnogol, yn hytrach na bygythiol ym mhob math o gyswllt.
- Gwella hyfforddiant staff ar arfer gorau ar gyfer siarad â phobl sy'n cael anhawster ariannol, gan gynnwys cymorth cyntaf iechyd meddwl.

# Cyfeiriadau


- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992, Cyrchwyd Mai 2022
- Protocol y Dreth Gyngor, Cyhoeddwyd Mehefin 2017, Cyrchwyd Mai 2022
- Costau Casglu, Cyhoeddwyd Ebrill 2019, Cyrchwyd Mai 2022
- Helpu i sicrhau system Treth y Cyngor decach yng Nghymru, Cyhoeddwyd Mawrth 2021, Cyrchwyd Mai 2022
- Protocol y Dreth Cyngor ar gyfer Cymru, Cyhoeddwyd Ionawr 2019, Cyrchwyd Mehefin 2022
- Gwiriwch pa ffioedd y gall beilïaid eu codi - Cyngor ar Bopeth, Cyrchwyd Mai 2022
- Beth yw'r Gyfriflen Ariannol Safonol? | SFS, Cyrchwyd Mai 2022
- Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Gymdeithasol Llywodraeth Leol [CTC 003], Cyrchwyd Mehefin 2022

# Cyngor cyfrinachol, rhad ac am ddim.

# Pwy bynnag ydych chi.

Rydym yn helpu pobl i oresgyn eu problemau ac yn ymgyrchu ar faterion mawr pan fydd angen i'w lleisiau gael eu clywed.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydym yma i bawb.

cyngor ar bopeth citizens advice

**citizensadvice.org.uk**

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2022

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth. Rhif elusen gofrestredig 279057.